



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

Y Gwir Anrhydeddus Amber Rudd AS  
Yr Ysgrifennydd Cartref  
2 Marsham Street  
Llundain  
SW1P 4DF

19 Ebrill 2018

Annwyl Amber Rudd AS

### **PARTH: Archwiliad Effeithlonrwydd 2017 Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi ac Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi**

Yn dilyn gradd archwiliad Arweinyddiaeth a Chyfreithlondeb llawer gwell ym mis Ionawr, mae'n dda gennyf weld bod gwelliannau Heddlu Dyfed-Powys o ran effeithlonrwydd yn cael eu cydnabod fel rhai da. Mae'r ddau welliant hyn yn olynol yn dangos bod tîm arweinyddiaeth yr Heddlu'n cynnal y momentwm tuag at welliannau pellach.

Mae'n dda nodi'r gwaith sylweddol a gyflawnwyd gan yr Heddlu i ddeall yn well y gofynion a osodir arno o ran ymateb i ddigwyddiadau. Mae hyn, ynghyd â gwaith partneriaeth ar gyfer darparu cymorth ychwanegol, yn sicrhau bod y cymorth mwyaf priodol yn cael ei gynnig i'r rhai sydd mwyaf agored i niwed.

Ar y cyfan, bu cyflwyno'r Tîm Pennu Digwyddiadau a Throseddau yn llwyddiannus, gan sicrhau bod ymchwilwyr â chymwysterau priodol yn cael eu pennu i achosion a bod y dioddefydd wrth galon pob dim y mae'r Heddlu yn ei wneud.

Rwy'n ymwybodol bod yr Heddlu'n talu sylw arbennig i'w drefnau goruchwyllo, a nodwyd bod hyn yn anghyson ar hyn o bryd a bod diffyg sicrhau ansawdd. Mae fy swyddfa'n gweithio gyda'r Heddlu er mwyn ceisio sicrwydd bod y mater yn cael ei symud yn ei flaen, yn ogystal â sicrhau bod fy ngwaith annibynnol yn ategu eu goruchwyllo mewnol ac yn adeiladu arno.

Rwy'n falch bod y buddsoddiad sylweddol yn Uned Digidol a Seiberdroseddu'r Heddlu'n talu ar ei ganfed. Ers yr archwiliad, mae'r uned wedi derbyn achrediad ISO, sy'n glod mawr i'r uned.

Mae'r Heddlu wedi ymgymryd â gwaith ar gyfer deall yn well y rhesymau pam fod canran uwch o'n dioddefwyr ddim yn cefnogi camau gweithredu pellach, neu'n tynnu eu cefnogaeth yn ôl. Byddaf yn gweithio gyda'r Heddlu i sicrhau bod gwasanaeth cymorth dioddefwyr 'Goleudy', sef gwasanaeth yr wyf yn ei gomisiynu, yn defnyddio'r wybodaeth hon i gefnogi dioddefwyr.

Rwy'n awyddus i weld mwy o waith yn cael ei wneud gyda phartneriaid er mwyn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael i ddeall ein cymunedau a'u gwendidau'n well er mwyn sicrhau gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. O'r herwydd, rwy'n cefnogi gwaith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, ac rwyf i a'r Heddlu'n gysylltiedig â chyfrannu at eu Cynlluniau Lles lleol.

Edrychaf ymlaen at weld gwelliannau pellach yn yr archwiliadau integredig a gynigwyd o dymor yr hydref.

Cyhoeddir copi o'r ymateb hwn ar [fy ngwefan](#).

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys,  
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

Dyfed-Powys Police and Crime Commissioner,  
PO Box 99, Llangunnor, Carmarthen, SA31 2PF

**Ffôn: Tel:** 01267 226440  
**Ffacs: Fax:** 01267 226448  
**E-bost: Email:** [opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk](mailto:opcc@dyfed-powys.pnn.police.uk)



**COMISIYNYDD  
HEDDLU A THROSEDDU  
DYFED-POWYS  
POLICE AND CRIME  
COMMISSIONER**

Yr eiddoch yn gywir,

**Dafydd Llywelyn**  
**Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu**

copi at: AEM Wendy Williams, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth EM, Rhanbarth Cymru a'r Gorllewin,  
Y Prif Gwnstabl Mark Collins, Heddlu Dyfed-Powys